



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

---

# Amcangyfrif ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24

---



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

---

# Cefndir

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw i'r ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Bydd dwy egwyddor yn sail i'r gwaith:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny

Manylion Cyswllt:

- Ffôn: 0345 6033 221
- E-bost: [post@comisiynyddygybraeg.cymru](mailto:post@comisiynyddygybraeg.cymru)
- Gwefan: [comisiynyddygybraeg.cymru](http://comisiynyddygybraeg.cymru)

**Gwenith Price**

**Dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg**

**30 Medi 2022**

Comisiynydd y Gymraeg  
Siambrau'r Farchnad  
5–7 Heol Eglwys Fair  
Caerdydd CF10 1AT

---

# Cynnwys

---

1	Rhagair	1
2	Cynlluniau'r Amcangyfrif	2
3	Tybiaethau'r Amcangyfrif	2
4	Amcangyfrif Gwariant Refeniw a Sylwadau	6
5	Dibrisiant	10
6	Buddsoddi ar Gyfalaf	11
7	Gofynion Arian Parod	12

# 1 Rhagair

- 1.1 Paratowyd yr Amcangyfrif hwn yn unol â gofynion statudol er mwyn sicrhau adnoddau digonol i gyflawni rhaglen waith Comisiynydd y Gymraeg yn 2023-24.
- 1.2 Gweledigaeth y Comisiynydd yw Cymru lle gall pobl fyw eu bywyd yn Gymraeg. Mae gweledigaeth, amcanion strategol a blaenoriaethau'r Comisiynydd am y cyfnod 2022 i 2025 wedi eu cynnwys yng Nghynllun Strategol y Comisiynydd. Mae'r amcangyfrif wedi ei ddatblygu gyda golwg ar alluogi'r Comisiynydd i weithredu'r cynllun strategol mewn cyfnod sy'n heriol yn ariannol.
- 1.3 Yn unol a chais Gweinidog y Gymraeg, rydym wedi chwilio am gyfleoedd i wneud arbedion. Gan fod tua 80% o'n cyllideb yn mynd ar gyflogau, mae canfod arbedion heb effeithio ar ein gallu i gyflawni ein dyletswyddau yn heriol. Rydym wedi adnabod ein ystâd swyddfeydd fel y cyfle gorau i wneud hynny, ond o 2024-25 ymlaen bydd y gwaith hyn yn arwain ar arbedion ariannol gwirioneddol. Mae mwy o wybodaeth yn adran 4.11 i 4.19.
- 1.4 Rydym yn pryderu am gynnydd costau mewn mannau eraill o'n cyllideb. Mae lefelau uchel chwyddiant a chynnydd mewn costau byw wedi arwain at drafodaethau a galwadau am gynnydd uwch na'r arfer mewn costau cyflogau. Gwelwyd eisoes setliadau cyflog o 5% ac uwch mewn rhannau o'r sector cyhoeddus. Mae'r Comisiynydd yn cyflogi staff ar delerau, amodau a chyfraddau cyflog sy'n gyson â rhai Llywodraeth Cymru ac nid yw'r setliad tal cyflog ar gyfer 2022-23 wedi ei gytuno eto. Byddai cost setliad cyflog ychwanegol yn arwain at fwch yn ein cyllideb eleni a bydd yr effaith yn gronnus yn 2023-24. Mae adrannau 3.9 i 3.17 a 4.4 i 4.10 yn egluro mwy am hynny.
- 1.5 Mae gwaith sylweddol wedi ei wneud yn trawsnewid ein hisadeiledd TG dros y 18 mis diwethaf a hynny gyda chymorth arian cyfalaf Llywodraeth Cymru. Bydd y gwaith trawsnewid yn dirwyn i ben eleni, ond er mwyn cadw ein hoffer a'n caledwedd yn gyfredol mewn cyfnod o weithio hybrid, bydd angen buddsoddiad pellach yn 2023-24. Mae mwy am hynny yn adran 6.
- 1.6 Bydd Comisiynydd newydd wedi cychwyn yn y rôl cyn diwedd blwyddyn ariannol 2022-23 a bydd gwaith sylweddol o drefnu ymweliadau, cyfarfodydd a digwyddiadau yn dilyn hynny. Bydd gwaith cyfathrebu ychwanegol i'w wneud hefyd i gefnogi'r gwaith ymgysylltu. Rydym wedi rhoi ystyriaeth i hynny yn yr amcangyfrif ac mae eglurhad pellach ym mharagraff 4.25. Mae'n debygol hefyd bydd gan y Comisiynydd syniadau a chynlluniau newydd i'w rhoi ar waith ar ôl cychwyn yn y rôl ac y bydd angen trafodaethau pellach am gyllid ar y pwynt hynny.
- 1.7 Mae'r Amcangyfrif hwn wedi ei lunio ar sail bod gan y sefydliad yr adnoddau i weithredu dyletswyddau statudol y Comisiynydd a'i gynllun strategol ac yn seiliedig ar y wybodaeth a'r amcanion gorau ar ddiwedd mis Medi 2022.

## 2 Cynlluniau'r Amcangyfrif

- 2.1 Mae'r Amcangyfrif hwn yn cyflwyno gofynion cyllido Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer 2023-24. Mae'r cynllun yn tybio bydd y Comisiynydd yn parhau i weithredu ar yr un lefel ag yn y blynyddoedd diweddar. Mae'r cynllun hwn yn gwneud cais am yr isafswm cyllid sydd ei angen i gyflawni strategaeth, blaenoriaethau a dyletswyddau sylfaenol y sefydliad.
- 2.2 Mae'r gofynion cyllidebu wedi eu nodi yn y tabl isod. Ceir manylion pellach am y tybiaethau yn adran 3 a'r gwariant yn adrannau 4 i 7 y ddogfen hon.

Categoriâu Cyllidebu	Adran	Cyllideb 2022-23 £000	Newid i effaith IFRS 16 £000	Cyllideb gyfatebol £000	Amcangyfrif 2023-24 £000	Cynnydd (Lleihad) £000
Refeniw	3	3,113	16	3,129	3,327	198
Symiau nad yn arian parod	4	216	(16)	200	249	49
Cyfalaf	5	245	-	245	170	(75)
Arian Parod	6				3,516	

- 2.3 Mae'r gofynion cyllido hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod gan y Comisiynydd adnoddau digonol er mwyn gallu gweithredu ei ddyletswyddau statudol a'i gynllun strategol megis:
- delio gyda chwynion yn unol â gofynion y Mesur;
  - ymyrryd mewn achosion llys neu adolygiadau barnwrol;
  - gallu i weithio gyda sefydliadau i sicrhau cydymffurfiaeth a rhannu arferion da;
  - dylanwadu ar bolisi; a
  - gwireddu'r weledigaeth i hybu'r Gymraeg a chreu cyfleoedd i gynyddu defnydd.
- 2.4 Noder bod newidiadau i'r gyllideb yn nhabl 2.2 wedi eu cynnwys er mwyn dangos effaith cyfatebol IFRS 16 ar y gyllideb o flwyddyn i flwyddyn. Mae newidiadau i ystâd swyddfeydd y Comisiynydd yn golygu bod costau dibrisiant ar yr asedau hawl i ddefnydd yn lleihau dros amser wrth i'r Comisiynydd weithredu ei strategaeth swyddfeydd.

## 3 Tybiaethau'r Amcangyfrif

- 3.1 Mae'r tybiaethau cynllunio cyffredinol wedi'u crynhoi yn yr adran hon.

### Hinsawdd economaidd a Chwyddiant


- 3.2 Noder bod newid sylweddol wedi bod i'r hinsawdd economaidd ryngwladol yn y 12 mis ers cyhoeddi ein Hamcangyfrif ar gyfer 2022-23. Ar y pryd roedd y byd a'r economi yn dod allan o gyfnod covid-19. Roedd disgwyl cyfnod o adfer gyda chynnydd tymor byr i chwyddiant CPI wrth i bwysau yn y gadwyn cyflenwi ar draws y byd gywiro ei hun, wrth i wledydd ddychwelyd i sefyllfa 'normal' yn dilyn cyfyngiadau covid-19. Yn dilyn y cyfnod yma, y rhagolwg oedd y byddai chwyddiant CPI yn

dychwelyd i tua 2.0% yn fuan. Roedd y tybiaethau cyhoeddwyd gan Fanc Lloegr yn eu *Monetary Policy Report* ym mis Awst 2021 yn sail i Amcangyfrif 2022-23.

3.3 Blwyddyn yn ddiweddarach mae adroddiad Banc Lloegr o fis Awst 2022 yn cyfleu darlun llawer mwy llwm o'r economi. Y penawdau yw:

- Pwysau yn y gadwyn gyflenwi, gyda phroblemau cyflenwi nwyddau allweddol yn parhau ar draws y byd.
- Mae'r rhyfel yn Wcráin, wedi gwaethygu'r sefyllfa ac wedi achosi ansicrwydd yn y farchnad a chynnydd esbonyddol yn enwedig ar gyfer costau nwy ac olew craidd a bwydydd sylfaenol megis gwenith ac olew.
- Mae effaith y rhyfel yn bwydo drwodd i gostau busnesau, costau cynhyrchu a thrafnidiaeth a chostau defnyddwyr a phrynwyr.
- Nid oes sicrwydd ynglŷn ag amseriad na chanlyniad unrhyw ddatrysiad posib i'r rhyfel yn Wcráin.

3.4 Sgîl effaith hyn yw bod chwyddiant wedi cynyddu yn sylweddol ers diwedd 2021 a bod disgwyl cyfnod o chwyddiant uchel dros y tymor canolig a dirwasgiad tebygol yn y tymor byr. Mae'r tabl isod yn dangos y newid sylweddol i lefel chwyddiant i'w gymharu â blwyddyn yn ôl.



3.5 Mae Amcangyfrif 2023-24 wedi'i baratoi adeg cyhoeddiad cyllidol Canghellor y Trysorlys ar 23/09/2022. Roedd elfennau o'r cyhoeddiad yn bellgyrhaeddol ac mae'n rhy gynnar i'r Comisiynydd allu ddeall effaith bosib ar wariant a chostau'r Comisiynydd.

3.6 Mae ymateb cynnar y marchnadoedd ariannol i gyhoeddiad Canghellor y Trysorlys wedi bod yn gyflym a sylweddol, gyda gwerth y bunt wedi gostwng o \$1.17 ar 26/08/2022 i \$1.05 ar 26/09/2022, sef gostyngiad o 10%. Gyda nwyddau wedi'u prasio mewn \$ bydd hyn yn cael effaith uniongyrchol ar gynyddu costau nwyddau sy'n cael eu mewnfario.

3.7 Mae sylwebwyr ariannol hefyd yn nodi y gallai'r cyhoeddiad olygu bydd angen i Fanc Lloegr gynyddu cyfraddau llog ymhellach na'r rhagolygon blaenorol, er mwyn ceisio rheoli'r effaith negyddol ar chwyddiant a'r gostyngiad yng ngwerth y bunt.

3.8 Noder isod sylwadau ar rhai elfennau allweddol o gostau rhedeg y Comisiynydd:

### Cyflogaeth

3.9 Er bod gan y Comisiynydd yr hawl i gyflogi 47 swyddog cywerth y pen, fel y nodwyd yn y blynyddoedd blaenorol, mae toriadau cyllido dros nifer o flynyddoedd wedi gorfodi penderfyniadau anodd i beidio â llenwi pob swydd wrth i swyddogion ymadael, neu newid eu horiau gwaith.

3.10 Mae'r cynllun yn tybio bydd y sefydliad yn cyflogi 41.8 swyddog cywerth y pen (heb gynnwys y Comisiynydd).

3.11 Mae'r Comisiynydd yn parhau gyda'r egwyddor i gyflogi staff ar delerau, amodau a chyfraddau cyflog sy'n gyson â rhai Llywodraeth Cymru. Ar adeg paratoi'r Amcangyfrif hwn nid oes setliad tâl wedi'i gytuno ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23.

3.12 Yn y misoedd diwethaf mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi setliadau cyflog ar gyfer y flwyddyn 2022-23 i wahanol weithwyr yn y sector gyhoeddus. Mae'r cynigion hyn ar sail argymhellion annibynnol ac yn sylweddol uwch na thybiaethau'r gorffennol gan y Comisiynydd. Dyma enghreifftiau o rai o'r cynigion ar gyfartaledd:

○ Heddlu	5.0%	
○ Athrawon	5.0%	
○ Gwasanaeth Iechyd	7.5%	4.0% - 5.5% (staff uwch)

3.13 Noder bod costau cyflogi staff yn cwmpasu tua 80% o holl wariant refferniw'r Comisiynydd, felly bydd unrhyw gynnydd i gostau cyflogaeth yn gofyn am gyllid ychwanegol.

3.14 Yn sgil y setliadau cyflog uchod, a rhagolygon chwyddiant gan Fanc Lloegr, mae'r Comisiynydd wedi paratoi'r Amcangyfrif ar sail setliadau cyflog ar lefel uwch na'r gorffennol dros y tymor canolig, gyda'r setliad yn dychwelyd i lefel mwy arferol erbyn 2024-25.

3.15 Mae trothwyon a chyfraddau pensiwn wedi'u cadw ar yr un lefel ag sydd yn daladwy ar gyfer 2022-23, ar y sail nad oes unrhyw wybodaeth swyddogol wedi ei gyhoeddi i dybio newid i'r cyfraddau.

3.16 Mae trothwyon yswiriant gwladol wedi'u cadw ar yr un lefel ag sydd yn daladwy ar gyfer 2022-23, ar y sail nad oes unrhyw wybodaeth swyddogol wedi ei gyhoeddi i dybio newid. Mae'r gyfradd sy'n daladwy gan y cyflogwr wedi ei gynyddu i adlewyrchu'r cynnydd o dros dro o 1.25% yn y flwyddyn 2022-23. Mae cyhoeddiad Canghellor y Trysorlys ar 23/09/2022 i wyrdroi'r cynnydd i Yswiriant Gwladol o fis Tachwedd 2022 a diddymu'r lwfans Gofal Cymdeithasol, wedi'i adlewyrchu.

3.17 Rydym wedi cynllunio ar sail bod unrhyw swydd cyfnod penodol neu secondiad yn dod i ben ar ddiwedd y cyfnod.

### Costau Gweinyddu Craidd

3.18 Mae'r costau hyn wedi eu hadolygu yn fanwl a lle gellir gwneud arbedion, mae'r arbedion hynny wedi eu hadlewyrchu. Noder y prif dybiaethau isod, ceir manylion pellach ym mharagraffau 4.11 i 4.25.

3.19 Mae effaith gweithredu IFRS 16 Lesoedd o 01/04/2022 wedi'i ymgorffori. Mae'r safon cyfrifyddu yn gofyn bod y les yn cael ei drin fel ased hawl i ddefnydd ac

ymrwymiad ariannol. Bydd dibrisiant yr ased a llog ar yr ymrwymiad yn cael ei gyfrif trwy'r cyfrif incwm a gwariant yn ystod y flwyddyn.

- 3.20 Yn unol â llythyr Llywodraeth Cymru yn dyrannu Cyllideb 2022-23 mae adolygiad sylfaenol o ofynion swyddfeydd y Comisiynydd wedi cychwyn ac mae tybiaeth y bydd gofynion swyddfeydd y sefydliad yn lleihau'n sylweddol yn y tymor canolig wrth i'r cyfleoedd hyn ddwyn ffrwyth.
- 3.21 Mae'n debygol y bydd effaith chwyddiant, sydd wedi ei nodi ym mharagraff 3.2 i 3.7 yn effeithio costau gweinyddu craidd y sefydliad. Adeg paratoi'r Amcangyfrif hwn nid oes effaith sylweddol wedi ei weld nac wedi'i ymgorffori. Er hyn mae'n bur debyg na fydd modd i'r Comisiynydd osgoi effaith cynnydd i brisiau gan gyflenwyr.
- 3.22 Mae'r Amcangyfrif hwn wedi'i baratoi ar sail y bydd rhaid chwilio am arbedion er mwyn amsugno cynnydd i gostau yn sgil effaith chwyddiant; ond mae hyn yn cyflwyno risg i allu'r Comisiynydd i barhau i gyflawni'r holl ddyletswyddau.

### Rhaglenni

- 3.23 Mae'r cyfanswm prosiectau a gynigir yn yr amcangyfrif wedi'u cyfyngu i'r rhai o natur debyg i brosiectau yr ymgymeryd â hwy yn 2021-22. Byddwn yn blaenoriaethu'r prosiectau bydd yn cael y dylanwad mwyaf ar gyflawni amcanion y Cynllun Strategol.

### Dibrisiant

- 3.24 Mae cost dibrisiant wedi ei seilio ar gynlluniau buddsoddi dros y tymor canolig. Y dybiaeth yw bod elfen olaf y prosiect i drawsnewid isadeiledd a gwasanaethau TG y sefydliad wedi'i gwblhau yn 2022-23.

### Buddsoddiad Cyfalaf

- 3.25 Mae'r cynllun wedi ei lunio ar sail adnewyddu isadeiledd TG y sefydliad yn amserol
- 3.26 Hefyd mae rhaglen ar gyfer lleihau gofynion swyddfeydd y sefydliad.
- 3.27 Mae'r gofynion buddsoddi ar gyfalaf wedi'u hamlinellu yn adran 6.



## 4 Amcangyfrif Gwariant Refeniw a Sylwadau

- 4.1 Cyflwynir isod fanylion o wariant Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer y blynyddoedd ariannol hyd at 2024-25. Er mwyn ariannu'r gweithgareddau sydd yn hanfodol bwysig i strategaeth, blaenoriaethau a gweithrediad effeithiol y sefydliad, gwneir cais am gyllid refeniw o £3,327,000. Gweler adran 5 ar gyfer ar gyfer symiau nad yn arian parod (dibrisiant), ac adran 6 ar gyfer gofynion cyllido cyfalaf.

	Gwariant 2021-22 £000	Cyllideb 2022-23 £000	Rhagolwg 2022-23 £000	Amcangyfrif 2023-24 £000	Cynllun 2024-25 £000
Cyflogau	2,397	2,467	2,515	2,702	2,803
<i>Rhent swyddfeydd (gweler 4.2)</i>	119	20	20	16	11
<i>Costau cynnal swyddfeydd</i>	117	134	134	122	106
<i>Dadfeiliadau swyddfeydd</i>	26	-	-	-	-
<i>Cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol</i>	110	80	86	116	80
<i>Costau proffesiynol arall</i>	118	78	82	78	78
<i>Technoleg gwybodaeth</i>	112	110	111	110	110
<i>Recriwtio, dysgu a datblygu</i>	56	36	34	39	39
<i>Teithio a chynhaliadau</i>	5	25	29	31	27
<i>Gwasanaethau gweinyddu arall</i>	30	25	26	29	28
<i>Llog ar lesioedd</i>	-	5	5	4	4
Costau Craidd	693	513	527	545	483
Rhaglenni	81	131	129	80	80
<b>CYLLIDEB REFENIW</b>	<b>3,171</b>	<b>3,111</b>	<b>3,171</b>	<b>3,327</b>	<b>3,366</b>
Cyllideb Refeniw Llywodraeth Cymru	3,207	3,113	3,113		
(Gorwariant) / Tanwariant	36	2	(58)		

- 4.2 Noder bod rhent swyddfeydd wedi lleihau oherwydd triniaeth lesioedd yn unol ag IFRS 16 o 01/04/2022.

- 4.3 Ystyrir effaith y ffactorau mwyaf dylanwadol ar wariant y Comisiynydd isod:

## Cyflogau

- 4.4 Nodwyd ym mharagraff 3.9 bod strwythur presennol y sefydliad hwn yn cynnwys 47 swydd, fel y'u cytunwyd gan Weinidogion Cymru. Hwn yw'r strwythur sydd yn addas ar gyfer ymateb i swyddogaethau'r Comisiynydd yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
- 4.5 Mae staff y Comisiynydd yn cael eu talu yn unol ag amodau a thelerau Llywodraeth Cymru, ac mae'r amcangyfrif wedi ei baratoi ar sail bod hyn yn parhau.
- 4.6 Derbyniwyd cyllideb refeniw ar gyfer 2022-23 ar lefel cyson â'r flwyddyn flaenorol, sef £3,113,000. Roedd setliad tâl diwedd Llywodraeth Cymru ar gyfer un flwyddyn hyd 31/03/2022, a'r effaith ar y sefydliad oedd cynnydd i gostau cyflogaeth o tua £50,000. Ni ddyrannwyd cyllideb ychwanegol ar gyfer y setliad tâl, roedd rhaid amsugno'r costau hyn o fewn y gyllideb a ddyrannwyd.
- 4.7 Mae adran 3 y ddogfen yn nodi ffactorau sy'n effeithio ar gostau cyflogau. Y ffactorau mwyaf allweddol yw'r cynnydd sylweddol i chwyddiant, sy'n debygol i barhau ar lefel uchel hyd at ddiwedd 2024. Mae rhagolwg Banc Lloegr yn rhagweld chwyddiant CPI o 12.8% ym mis Mawrth 2023 gyda'r lefel wedi lleihau i ryw 5.0% erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2023-24.
- 4.8 Bydd hyn yn arwain at bwysau i gytuno setliadau cyflog uwch yn y sector gyhoeddus. Mae'r Amcangyfrif hwn wedi ei baratoi ar sail setliadau cyflog ar lefel sy'n gyson â'r rhai sydd wedi eu cyhoeddi'n barod (gweler 3.12) ar gyfer y ddwy flynedd ariannol 2022-23 a 2023-24. Disgwylir i'r setliadau ddychwelyd i'r lefel blaenorol wedi hynny.
- 4.9 Yr effaith ar gostau cyflogaeth dros y blynyddoedd sydd wedi eu cynnwys yn yr Amcangyfrif hwn yw:
- Rhagolwg 2022-23: cyfanswm o £110,000 o gynnydd sydd £60,000 yn fwy na'r swm oedd wedi ei gyllidebu;
  - Amcangyfrif 2023-24: cyfanswm o £129,000 o gynnydd pellach ar sail tybiaethau rhesymol yn ymateb i'r hinsawdd economaidd bresennol a setliadau cyflog sy'n hysbys yn y sector gyhoeddus.
- 4.10 Os na fydd cyllid ychwanegol ar gael ar gyfer y flwyddyn gyfredol, drwy addasiad i'r gyllideb a dyraniad o gyllid digonol ar gyfer 2023-24; oherwydd bod costau cyflogau yn cwmpasu 80% o gostau refeniw, bydd yn anorfod gwneud penderfyniad anodd i reoli gwariant o fewn y gyllideb.

## Swyddfeydd

- 4.11 Ar gyfer 2022-23 mae safonau cyfrifyddu wedi newid triniaeth lesioedd y swyddfa fel nad yw'r rhent yn cael ei drin fel cost weithredol. Yn hytrach bydd gwerth y les yn cael ei ddibrisio dros y cyfnod ceir gwerth economaidd o'r les.
- 4.12 Mae'r costau eraill cynnal y swyddfeydd yn cynnwys ymrwymadau cytundebol megis gwasanaethau landlord, treth annomestig a gwasanaethau cyfleusterau swyddfa.
- 4.13 Crynhoir y costau blynyddol cyfredol (2022-23) fesul swyddfa yn y tabl isod, ynghyd a maint y swyddfeydd a nodyn o'r cyfnodau pan ellir terfynu neu dorri'r lesioedd:

	Caerdydd £000	Caernarfon £000	Caerfyrddin £000	Rhuthun £000	Cyfanswm £000
TAW ar y Rhent	12	5	2	1	20
Llog ar y Lesoedd	3	1	1	0	5
Gwasanaethau Landlord	16	14	5	0	35
Treth Annomestig	17	21	1	0	39
Costau Eraill	36	13	10	1	60
<b>Cyfanswm Refeniw</b>	<b>84</b>	<b>54</b>	<b>19</b>	<b>2</b>	<b>159</b>
Dibrisiant ar y Lesoedd	56	26	10	4	96
<b>CYFANSWM</b>	<b>140</b>	<b>80</b>	<b>29</b>	<b>6</b>	<b>255</b>
Maint swyddfa (m <sup>2</sup> )	434	264	90	40	
Sylwadau	toriad les 20/12/2023	terfyn les 23/03/2028	terfyn les 05/09/2023	cyfnod rybudd 6 mis	

- 4.14 Yn y llythyr dyddiedig 03/05/2022 yn dyrannu cyllideb ar gyfer 2022-23 nododd y Gweinidog “...yr effeithiau parhaol ar y gweithle a'r gwahanol ffyrdd y gallwn gyflawni ein swyddogaethau. Mae cyfleoedd posibl ar gyfer arbed costau y gellir eu hymgorffori wrth gynllunio'r gyllideb.”
- 4.15 Y disgwyl yw bod profiad cyfnod covid-19, dyheadau staff a gofynion busnes y sefydliad yn arwain at batrymau gweithio fwy hyblyg yn y dyfodol. Mae'r buddsoddiad mewn technoleg a dulliau amgen o weithio yn debygol o ganiatáu elfen o weithio hyblyg o swyddfeydd, cartref neu leoliadau eraill. Traweffaith hyn yw bydd gofynion swyddfeydd y sefydliad yn dra gwahanol i'r ddarpariaeth sydd gan y sefydliad ar hyn o bryd.
- 4.16 Yn ysbryd y cais hwn chan fod costau swyddfeydd yn ganran sylweddol o gostau rhedeg y sefydliad mae prosiect ar waith er mwyn mynd i'r afael â chynllunio gofynion swyddfa mwy pwrpasol at ddulliau gweithio hybrid y dyfodol.
- 4.17 Oherwydd nid oes modd cyfreithiol i ildio'r lesoedd yn gynt na'r cyfnodau sydd wedi eu nodi uchod heb dâl cosb, a hefyd bydd y broses o gynllunio a gweithredu'r newid yn digwydd yn ystod blwyddyn ariannol 2023-24, nid oes disgwyl arbedion sylweddol hyd flwyddyn ariannol 2024-25.
- 4.18 Mae'r tabl isod yn amlinellu'r costau blynyddol dros dair blynedd. Bydd y newid yn cyflawni arbedion o tua £79,000 (31%) yn y tymor canolig, ar sail lleihau'r ystâd a darparu gofod addas at ofynion y sefydliad sy'n cynnig gwerth am arian.

	Rhagolwg 2022-23 £000	Amcangyfrif 2023-24 £000	Cynllun 2024-25 £000
TAW ar y Rhent	20	16	11
Llog ar y Lesoedd	5	4	4
Gwasanaethau Landlord	35	32	27
Treth Annomestig	39	37	32
Costau Eraill	60	53	47
<b>Cyfanswm Refeniw</b>	<b>159</b>	<b>142</b>	<b>121</b>
Dibrisiant ar y Lesoedd	96	80	55
<b>CYFANSWM</b>	<b>255</b>	<b>222</b>	<b>176</b>

4.19 Rydym yn rhagweld y bydd asesu a newid i ofynion swyddfeydd yn gofyn am fuddsoddiad a chostau untro. Mae'r rhain wedi eu rhestru isod ac wedi eu cynnwys dan y penawdau cyllidebu perthnasol:

- Costau Cyfreithiol (costau proffesiynol) £24,000 (paragraff 4.23)
- Cynlluniau Swyddfeydd (cyfalaf) £125,000 (paragraff 6.3)
- Amhariad gwerth asedau swyddfa (dibrisiant) £48,000 (paragraff 5.2)

### Technoleg Gwybodaeth

4.20 Yn sgil y newid i'r isadeiledd, amgylchedd a gwasanaethau yn dilyn gweithredu'r Strategaeth TG, mae arbedion sylweddol i gostau rhedeg gwasanaethau TG y sefydliad wedi'u hadnabod a'u gweithredu, drwy derfynu cytundebau a negodi cytundebau newydd. Mae'r cynllun hwn yn tybio bydd cost cynnal gwasanaethau TG y sefydliad ar gyfer 2023-24 yn £110,000. Mae hyn yn arbediad o tua £53,000, sef arbediad o 33% i'w gymharu â chostau blaenorol y gwasanaethau.

### Cyfreithiol a phroffesiynol

4.21 Mae costau ar gyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol yn gallu amrywio yn sylweddol ac mae'n anodd rhagdybio'n llawn yr amgylchiadau lle bo angen am gyngor neu gynrychiolaeth. Mae rhai blynyddoedd wedi bod lle mae'r gwariant wedi bod yn isel, ond roedd gwir wariant 2021-22 yn £110,000 ac mae'r rhagolwg gwariant ar gyfer 2021-22 yn tybio gwariant o tua £86,000 erbyn diwedd y flwyddyn.

4.22 Yn sgil alinio cyllidebol cyrff llywodraeth ganolog, nid oes modd cadw cronfa wrth gefn at ddibenion achosion allai godi. Ar gyngor gweision sifil adran gyllid Llywodraeth Cymru mae'r cynllun hwn yn cynnwys lefel cyllido rhesymol a digonol ar gyfer cyngor cyfreithiol a chostau cynrychiolaeth. Y disgwyl yw bydd lefel costau cyfreithiol arferol dros y tymor canolig yn parhau tua £80,000 y flwyddyn.

4.23 Ac eithrio costau cyfreithiol ar gyfer materion yn delio gyda'r Mesur noder ym mharagraff 4.22 mae angen cyllid ychwanegol ym mlwyddyn ariannol 2023-24 o £24,000 mewn perthynas â gweithredu cynlluniau'r Comisiynydd ar gyfer swyddfeydd y sefydliad.

4.24 O ran y costau proffesiynol arall, mae'r gwariant ar y rhain yn sefydlog ac yn adlewyrchu gofynion y sefydliad. Gellir dadansoddi'r gwariant fel a ganlyn:

○ Archwilio Cymru (statudol)	£17,000
○ Archwilio mewnol	£15,000
○ Cyfieithu a phrawf ddarllen	£33,000
○ Yswiriant sefydliadol	£11,000
○ Ymgynghorwyr	£3,000

### Teithio a Chynhaliaeth

4.25 Mae cyfnod clo covid-19 wedi galluogi staff i ddefnyddio dulliau amgen i gysylltu â rhanddeiliaid. Mae'r profiad wedi dangos bod modd cynnal perthynas a chyswllt yr un mor effeithiol drwy'r dulliau rhithiol â chyswllt wyneb yn wyneb. Y dybiaeth yw ni fydd dychwelyd i gynnal cyswllt wyneb yn wyneb heblaw am amgylchiadau lle bo'n angenrheidiol, neu'n fwy effeithiol. Mae cyllid o £31,000 wedi ei glustnodi ar gyfer teithio a chynhaliaeth, sydd £2,500 yn fwy na rhagolwg 2022-23 oherwydd anghenion mewn perthynas â Chomisiynydd newydd yn cychwyn mewn swydd.

### Rhaglenni

4.26 Cynllunnir gwariant rhaglenni o £80,000 ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24. Mae'r lefel gwariant yn gyson â lefel gwariant yn 2021-22 ond rhyw £49,000 yn llai na'r hyn cynlluniwyd ar ei gyfer ym mlwyddyn ariannol 2022-23. Byddai cwtogi pellach ar y gwariant yn cael effaith andwyol ar gyflawni amcanion y Cynllun Strategol.

## 5 Dibrisiant

5.1 Oherwydd oedi i amseriad y buddsoddiad ar y System Rheoli Achosion, sy'n cael ei ddatblygu ym mlwyddyn ariannol 2022-23, roedd yr ychwanegiadau i asedau sefydlog yn 2021-22 yn llai na'r hyn roedd wedi ei gynnwys yn yr Amcangyfrif blaenorol. Mae'r cynlluniau buddsoddi ar systemau technoleg yn 2022-23 hyd 2024-25 sydd wedi eu nodi yn adran 6 yn arwain at gostau dibrisiant ac amorteiddio fel y'u noder yn y tabl isod:

	Rhagolwg 2022-23 £000	Amcangyfrif 2023-24 £000	Cynllun 2024-25 £000
Asedau Sefydlog ar 31/03/2022	77	65	43
System Rheoli Achosion	12	47	47
Buddsoddiad TG	-	6	18
Cynlluniau Swyddfeydd	-	3	12
Amhariad gwerth asedau swyddfa (gweler 5.2)	-	48	-
<b>Cyfanswm ar Asedau Sefydlog</b>	<b>89</b>	<b>169</b>	<b>120</b>
Asedau Hawl i Ddefnydd (gweler 4.18)	96	80	55
<b>Cyfanswm Dibrisiant</b>	<b>185</b>	<b>249</b>	<b>175</b>
<b>Cyllideb Llywodraeth</b>	<b>216</b>		
Tanwariant	31		

5.2 Noder bod cais am £48,000 ar gyfer amhariad yng ngwerth asedau yn ymwneud â swyddfeydd; wrth i gynlluniau swyddfeydd y Comisiynydd gael ei roi ar waith.

## 6 Buddsoddi ar Gyfalaf

6.1 Mae'r tabl isod yn amlinellu prif elfennau'r gofynion gwariant ar gyfalaf:

	<b>Rhagolwg 2022-23 £000</b>	<b>Amcangyfrif 2023-24 £000</b>	<b>Cynllun 2024-25 £000</b>
Diogelwch Seibr	10	-	-
System Rheoli Achosion	235	-	-
Cynlluniau Swyddfeydd	-	125	-
Adnewyddu'r ystâd gyfrifiadurol	-	30	30
Fideo-gynadledda ystafelloedd cyfarfod	-	15	-
<b>Cyfanswm Buddsoddiad</b>	<b>245</b>	<b>170</b>	<b>30</b>

6.2 Bydd y buddsoddiad ar y System Rheoli Achosion wedi'i gwblhau yn y flwyddyn ariannol gyfredol sef 2022-23.

6.3 Y prif fuddsoddiad ar gyfalaf yn 2023-24 yw'r angen am £125,000 ar gyfer gwaith gosodiadau swyddfa amgen yn unol â chynlluniau'r Comisiynydd i leihau'i ystâd o swyddfeydd a chynnal ystâd bwrpasol, yn cynnig gwerth am arian yn yr hinsawdd o weithio hyblyg. Gweler paragraffau 4.11 i 4.19.

6.4 Mae cais am £30,000 yn 2023-24 a £30,000 pellach yn 2024-24 er mwyn adnewyddu ystâd gyfrifiadurol y defnyddwyr, wrth i'r asedau hyn ddod i ddiwedd eu bywyd economaidd. Mae'n holl bwysig buddsoddi mewn offer cyfredol er mwyn sicrhau perfformiad da ar gyfer y defnyddwyr; ond yn bwysicach sicrhau bod yr offer yn gyfredol ac yn cynnal systemau gweithredu sy'n cydymffurfio gyda'r safonau diogelwch mwyaf diweddar ac yn cael eu cefnogi gan y gwneuthurwyr.

6.5 Mae cais am £15,000 er mwyn gosod adnoddau fideo gynadledda pwrpasol mewn ystafelloedd cyfarfod/cynadleddau mewn dwy swyddfa. Mae hyn er mwyn darparu cysylltiadau a gwasanaeth er mwyn galluogi cyfarfodydd rhithiol i grwpiau o bobl.

## 7 Gofynion Arian Parod

- 7.1 Mae egwyddorion cyfundrefn Alinio Cyllidebol Cyrff Llywodraeth Ganolog wedi'u rhoi ar waith ers ail hanner blwyddyn ariannol 2021-22. Sgil effaith hyn yw nad yw lefel yr arian parod sy'n cael ei gadw gan y Comisiynydd yn fwy na 5% o wariant blyneddol y sefydliad, sef tua £175,000.
- 7.2 Ar sail yr Amcangyfrif a'r cynlluniau gwariant sydd wedi'u hamlinellu yn adrannau 4, 5 a 6 o'r ddogfen hon, noder y gofynion arian parod ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24 yn y tabl isod:

	Mantolen 31/03/23 £000	Gwariant Refeniw £000	Gwarian Cyfalaf £000	Dibrisiant Asedau £000	Effaith IFRS 16 £000	Newid i Ddyledwyr Credydwy £000	Gofynion Arian Parod £000	Balans 31/03/24 £000
Asedau sefydlog	409		170	(169)				410
Asedau hawl defnydd	458				(80)			378
Symiau derbynadwy	27					(11)		16
Rhagdaliadau	51							51
Arian parod	171	(3,327)	(170)		(15)		3,516	175
Taliadau masnachol	(116)							(116)
Croniadau	(220)							(220)
Credydwy arall	(45)							(45)
Ymrwymiad lesioedd	(441)				95			(346)
Darpariaethau	(205)							(205)
<b>Ecwiti'r Trethdalwr</b>	<b>89</b>	<b>(3,327)</b>	<b>0</b>	<b>(169)</b>	<b>0</b>	<b>(11)</b>	<b>3,516</b>	<b>98</b>

- 7.3 Gall y Comisiynydd gadw hyd at 5% o'r gofyniad yn y cyfrif banc ar ddiwedd y flwyddyn, sef £175,000. Gyda rhagolwg o £171,000 yn y cyfrif banc ar ddechrau'r flwyddyn, mae'r Amcangyfrif hwn yn cynllunio mai £3,516,000 bydd cyfanswm yr arian parod caiff ei dynnu lawr ar gyfer 2023-24.